Dŵr Cymru
Welsh Water

# Datganiad o newidiadau sylweddol

## Cynllun Taliadau 2020/21

Mae'r datganiad hwn wedi'i gwblhau yn unol â gofynion gwybodaeth Rheolau'r Cynllun Taliadau a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019.

## Adran 1 – Cynnydd sylweddol mewn biliau

**a) Cadarnhad o p'un a yw'r ymgymerwr yn disgwyl unrhyw gynnydd mewn biliau o fwy na 5% o'r flwyddyn flaenorol (ar gyfer math o gwsmer penodol gan dybio lefel gyson o ddefnydd) ac, os disgwylir cynnydd o'r fath:**

- faint o gynnydd a ddisgwylir;
- pa fathau o gwsmeriaid y mae'n debygol o effeithio arnynt;
- y strategaethau ymdrin a fabwysiadwyd gan y cwmni neu pam nad oedd y cwmni o'r farn bod angen strategaethau o'r fath.

Mae'r newid yn y biliau ar gyfer cwsmeriaid preswyl a chwsmeriaid busnes sy'n codi o Gynllun Taliadau 2020/21 wedi'i adolygu gan y Bwrdd.

Roedd y Penderfyniad Terfynol a gyhoeddwyd gan Ofwat ar 16 Rhagfyr 2019 yn galluogi mwy o refeniw ar gyfer 2020/21 nag ar gyfer 2019/20, sydd wedi rhoi mwy o bwysau ar filiau, a byddai hynny wedi arwain at gynnydd o fwy na 5% i filiau rhai cwsmeriaid. Mae'r Bwrdd wedi penderfynu cyflwyno cosbau cymhellion cyflawni canlyniadau (ODI) disgwyliedig sy'n codi o berfformiad 2019/20 fel rhan o'r strategaeth ymdrin (gweler tabl 1 isod). Yn ogystal â hyn, mae'r taliadau ar gyfer 'wholesale wastewater network plus' wedi cael eu pennu i adennill tua £5 miliwn (1%) yn llai na lwfans y Penderfyniad Terfynol, er mwyn sicrhau na fydd cwsmeriaid dŵr gwastraff dibreswyl yn benodol yn gweld unrhyw gynnydd sylweddol (>5%) yn eu biliau yn 2020/21, wrth ddefnyddio dŵr yn gyson. Er gwaethaf yr addasiadau hyn, byddai nifer bach o gwsmeriaid elifion masnach yn gweld cynnydd o fwy na 5% yn eu biliau ar ddefnydd a chryfder cyson. Dyma'r cwsmeriaid sydd â gollyngiadau cryf. Bydd y Cwmni yn mynd ati i gysylltu â'r cwsmeriaid hyn er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r effaith bosibl ar eu bil a bydd yn gweithio gyda nhw i leihau'r effaith.

Mae Tabl 2 a 3 yn dangos effaith y taliadau a gyhoeddwyd ar sampl gynrychioliadol o gwsmeriaid.

### Tabl 1: Addasiadau ODI ar gyfer perfformiad arfaethedig yn 2019/20

Mae'r tabl isod yn dangos canlyniadau cymhellion cyflawni canlyniadau arfaethedig o'r perfformiad arfaethedig yn 2019/20 a gaiff ei benderfynu gan Ofwat ym mis Gorffennaf 2020 yn yr ymarfer cywiro ar gyfer y flwyddyn ddall. Mae'r golofn gyntaf yn dangos y canlyniad cymhellion cyflawni canlyniadau disgwyliedig a gafodd ei gyflwyno i Ofwat yn y 'Reconciliation Rulebook' ym mis Gorffennaf 2019 a'i gynnwys yn y Penderfyniad Terfynol. Mae'r ail golofn yn nodi'r perfformiad arfaethedig. Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau rif hyn wedi'u cymhwyso at drefniadau rheoli refeniw'r priod 'wholesale network plus' a'i gynnwys yng Nghynllun Taliadau 2019/20.

| Ymrwymiad Perfformiad | Reconciliation Rulebook | Rhagolwg | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m |
| **Dŵr** | (2.3) | (4.4) | (2.1) |
| **Dŵr gwastraff** | 2.3 | 1.8 | (0.5) |

**Tabl 2: Biliau enghreifftiol – Cwsmeriaid preswyl**

Mae'r tabl isod yn dangos y biliau sy'n codi o Gynllun Taliadau 2020/21 ar gyfer amrywiaeth o gwsmeriaid preswyl nodweddiadol ac yn dangos yr amrywiant o fil y flwyddyn flaenorol (gan dybio bod cwsmeriaid â mesurydd yn defnyddio dŵr yn gyson).

| | Cyfanswm Bil 19/20 (£) | Cyfanswm Bil 20/21 (£) | Amrywiant £ | Amrywiant |
|---|---|---|---|---|
| Cwsmeriaid Gwasanaeth Deuol | | | | |
| **Gwasanaeth Deuol heb Fesurydd** | | | | |
| GA Isel | 424 | 432 | 7 | 2% |
| GA Canolig | 574 | 583 | 10 | 2% |
| GA Uchel | 735 | 748 | 13 | 2% |
| **Gwasanaeth Deuol â Mesurydd** | | | | |
| Defnydd isel o ddŵr | 278 | 279 | 1 | 0% |
| Defnydd canolig o ddŵr | 363 | 364 | 1 | 0% |
| Defnydd uchel o ddŵr | 527 | 529 | 2 | 0% |
| **Tâl Gwasanaeth Unffurf Gwasanaeth Deuol** | | | | |
| Gwasanaeth Llawn | 590 | 600 | 10 | 2% |
| **Gwasanaeth Deuol heb Fesurydd – dŵr budr yn unig** | | | | |
| GA Isel | 375 | 382 | 7 | 2% |
| GA Canolig | 524 | 534 | 10 | 2% |
| GA Uchel | 686 | 698 | 13 | 2% |
| **Gwasanaeth Deuol â Mesurydd – dŵr budr yn unig** | | | | |
| Defnydd isel o ddŵr | 244 | 246 | 1 | 0% |
| Defnydd canolig o ddŵr | 324 | 326 | 1 | 0% |
| Defnydd uchel o ddŵr | 479 | 481 | 2 | 0% |
| **Tâl Gwasanaeth Unffurf Gwasanaeth Deuol – dŵr budr yn unig** | | | | |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf – Dŵr budr yn unig | 541 | 551 | 10 | 2% |
| **Tariffau Cymdeithasol** | | | | |
| HelpU | 202 | 211 | 9 | 4% |
| WaterSure Cymru | 327 | 343 | 16 | 5% |
| | | | | |
| Cwsmeriaid Un Gwasanaeth | | | | |
| **Dŵr yn unig** | | | | |
| GA canolig heb fesurydd | 243 | 240 | (2) | -1% |
| Defnydd canolig o ddŵr â mesurydd | 148 | 147 | (2) | -1% |
| **Dŵr Gwastraff yn Unig – gwasanaeth carthffosiaeth llawn** | | | | |
| GA canolig heb fesurydd | 331 | 343 | 12 | 4% |
| Defnydd canolig o ddŵr â mesurydd | 215 | 218 | 3 | 1% |
| **Dŵr Gwastraff yn Unig – dŵr budr yn unig** | | | | |
| GA canolig heb fesurydd | 281 | 294 | 12 | 4% |
| Defnydd canolig o ddŵr â mesurydd | 176 | 179 | 3 | 2% |

**Tabl 3: Biliau enghreifftiol – Cwsmeriaid dibreswyl**

Mae'r tabl isod yn dangos y bil sy'n codi o Gynllun Taliadau 2020/21 ar gyfer amrywiaeth o gwsmeriaid busnes nodweddiadol ac yn dangos yr amrywiant o fil y flwyddyn flaenorol (gan dybio bod cwsmeriaid â mesurydd yn defnyddio dŵr yn gyson).

| | Cyfanswm Bil 19/20 (£) | Cyfanswm Bil 20/21 (£) | Amrywiant £ | Amrywiant |
|---|---|---|---|---|
| **Dibreswyl** | | | | |
| **Gwasanaeth Deuol heb Fesurydd** | | | | |
| GA Canolig | 701 | 729 | 28 | 4% |
| **Gwasanaeth Deuol Safonol â Mesurydd** | | | | |
| Defnydd canolig o ddŵr | 1,670 | 1,734 | 64 | 4% |
| **Dŵr yn unig** | | | | |
| **Tariffau Diwydiannol** | | | | |
| Band 1 (50 Ml – 100 Ml) | 88,194 | 91,653 | 3,459 | 4% |
| Band 2 (100 Ml – 250 Ml) | 177,645 | 184,438 | 6,793 | 4% |
| Band 3 (250 Ml – 500 Ml) | 346,793 | 359,923 | 13,130 | 4% |
| Band 4 (500 Ml – 1000 Ml) | 634,372 | 660,253 | 25,881 | 4% |
| **Dŵr Anyfadwy** | | | | |
| Band A – Dŵr Heb ei Drin | 1,781 | 1,848 | 67 | 4% |
| Band A – Triniaeth Rannol | 1,295 | 1,343 | 48 | 4% |
| Band B – Dŵr Heb ei Drin | 182,253 | 189,481 | 7,229 | 4% |
| Band B – Triniaeth Rannol | 969,370 | 1,008,235 | 38,865 | 4% |
| **Dŵr Gwastraff yn Unig** | | | | |
| **Elifion Masnach** | | | | |
| Cyfanswm Bil Elifion Masnach (<100Ml) | 9,744 | 10,138 | 394 | 4% |
| Cyfanswm Bil Elifion Masnach (>100Ml) | 356,332 | 371,241 | 14,910 | 4% |

## Adran 2 – Newidiadau yn y polisi codi taliadau

**(b) Manylion unrhyw newidiadau sylweddol yn y polisi codi taliadau gan y cwmni o'r flwyddyn flaenorol.**

## Newidiadau 2019/20 – diweddariad

### Adolygiad o adennill taliadau dŵr wyneb

Mae'r broses o godi tâl am ddŵr wyneb wedi newid i adennill y costau drwy elfen sefydlog biliau cwsmeriaid â mesurydd a chwsmeriaid heb fesurydd er mwyn adlewyrchu costau darparu'r gwasanaeth yn well. Byddai newid strwythur taliadau cwsmeriaid â mesurydd ar unwaith er mwyn ei roi ar waith yn 2019/20 wedi arwain at effaith sylweddol ar gwsmeriaid dŵr budr yn unig sy'n defnyddio llawer o ddŵr. Felly, cafodd hyn ei roi ar waith yn rhannol yn 2019/20 er mwyn sicrhau bod y gwaith o gysoni'r gyfradd gyfeintiol yn llawn yn cael ei gwblhau yn 2020/21. Cafodd hyn ei drafod â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr.

Nid yw'r broses o roi hyn ar waith wedi cael ei chwblhau'n llawn yn nhaliadau 2020/21, er mwyn sicrhau na fydd y cwsmeriaid yr effeithir arnynt yn gweld cynnydd o fwy na 5% yn eu bil. Caiff y gwaith o gysoni'n llawn ei gwblhau yn y dyfodol.

### Trosglwyddo Cymorth Dŵr Cymru

Mae'r tariff trosglwyddo carthffosiaeth yn unig wedi cynyddu 5% yn unol â'r cynllun trosglwyddo. Disgwyliwyd cwblhau'r broses o symud y cwsmeriaid carthffosiaeth yn unig hyn i dariff WaterSure Cymru yn raddol erbyn 2022. Fodd bynnag, mae'r broses o wneud hyn yn raddol wedi cael ei hymestyn er mwyn sicrhau nad yw'r cwsmeriaid yn gweld cynnydd sylweddol yn eu bil. Trafodwyd y cynnig â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr.

Cafodd unrhyw gwsmer a oedd yn gymwys ar gyfer HelpU ei drosglwyddo i'r cynllun fel rhan o'r strategaeth ymdrin wreiddiol.

## Newidiadau 2020/21

### Adolygiad o adennill taliadau draenio priffyrdd

Adolygwyd lefel taliadau draenio priffyrdd eleni er mwyn adlewyrchu costau darparu'r gwasanaeth yn well. Mae taliadau preswyl ar gyfer cwsmeriaid â mesurydd a chwsmeriaid heb fesurydd wedi cael eu pennu'n £7.36, £25.68 i gwsmeriaid dibreswyl a £10,273.78 i gwsmeriaid diwydiannol sy'n gollwng mwy na 100Ml y flwyddyn. Caiff costau draenio priffyrdd eu hadennill drwy elfen sefydlog biliau cwsmeriaid.